

Gwers 7 –
Cymryd rhan
sy'n cyfri



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cyfranogiad

Lefel Gradd:

Teitl y Wers: Cymryd rhan sy'n cyfri

Amcan Dysgu:

- Bod disgyblion yn cael dweud eu dweud ac yn cael gwrandawriad
- Bod y disgyblion yn cyfranogi, ac yn bwysig, yn cael hwyl ac yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd
- Bod y disgyblion yn gwneud eu gorau

Er budd y myfyrwyr, esboniwch beth bydd y myfyrwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hyn.

Bydd Rhai Dysgwyr: Yn gallu nodi a dathlu eu cyflawniadau eu hunain a rhai pobl eraill

Bydd Mwyafrif y Dysgwyr: Yn gallu nodi a dathlu eu cyflawniadau eu hunain

Bydd yr Holl Ddysgwyr: Yn datblygu ymhellach eu gallu i gymryd rhan, datblygu eu hyder a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd.

Cwestiynau Allweddol:

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwers hawliau ddiwethaf?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Beth yw ystyr cymryd rhan?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywbeth maen nhw'n ei wneud yn dda?
- Pwy sydd eisiau gwneud rhywbeth yn well?
- All unrhyw un feddwl am rywbeth hoffen nhw roi cynnig arno?

Deunyddiau/Adnoddau angenrheidiol:

- Stori Gymdeithasol – "Cyfranogiad"
- Pecyn lluniau - Cyfranogiad
- Bydd angen amrywiaeth o adnoddau ar gyfer y wers hon. Rydyn ni'n awgrymu cynnal y wers hon nifer o weithiau, gan mai'r nod yw annog disgyblion i roi cynnig ar bethau newydd.

Cyflwyniad:

Crynowch y wers flaenorol, gan dynnu sylw at yr agweddau allweddol i'r disgyblion. Atgoffwch y disgyblion eich bod wedi trafod beth hoffech chi ei newid neu wneud mwy ohono yn yr ysgol yn y wers ddiwethaf.

Fel dosbarth, trafodwch ein hoff weithgareddau a'r pethau rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n eu gwneud nhw'n dda a pham.

Rhowch gyfleoedd ar gyfer llais y disgybl, a chydweithiwch i benderfynu ar weithgaredd/wers arbennig trwy bleidlais – gallai hyn fod yn unrhyw beth o ddewis agored i gelf llanast i gêm bêl-droed. Y peth pwysig yw bod y disgyblion yn cael cyfle i wneud dewisiadau a phleidleisio ar hynny. Efallai y byddwch am ddewis lluniau ymlaen llaw o weithgareddau mae'r disgyblion yn eu hoffi er mwyn cefnogi dysgwyr lefel isel.

Mae hwn yn syniad y gallwch ei gyflwyno i fywyd y dosbarth a'i gynnig yn wythnosol. Efallai byddwch chi am droi'r bleidlais yn rhestr, ac esbonio y byddwch yn gwneud un gweithgaredd bob wythnos nes bod yr holl ddewisiadau wedi cael eu tro.

Prif Weithgaredd:

Dyma rai enghreifftiau o weithgareddau y gallai disgyblion eu dewis:

Drama/ Dawns

Add. Gorff. / Chwaraeon

Ystafell Synhwyrdd

Peintio

Darllen

Chwarae Awyr Agored

Sesiwn Synhwyrdd

Dewis rhydd

Parhaus: Llenwch dudalen 11 o'r Llyfryn Fy Hawliau i

Sesiwn Lawn:

Fel dosbarth crynowch y wers:

- Beth rydyn ni wedi'i ddysgu heddiw?

Gofynnwch i'r dosbarth beth gwnaethon nhw ei fwynhau am y gweithgaredd a beth bydden nhw'n ei newid amdano fe.

Gofynnwch i'r disgyblion hunanasesu eu perfformiad yn ystod y gweithgaredd a dathlwch agwedd ar gyfranogiad pob disgybl.

Mae'n bosibl y bydd y dysgwyr mwy galluog yn gallu dathlu llwyddiant a chyflawniadau pobl eraill.

Fel athro mae'n bwysig canmol y disgyblion am eu cyfranogiad a'u parodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd. Efallai byddwch chi am ddewis cân neu weithgaredd i ddathlu (fel cylch o guro dwylo) i gydnabod cyfranogiad y disgyblion.

Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):

Gall dealltwriaeth gael ei hasesu trwy holi ac adborth llafar. Bydd hunanasesu yn rhoi hwb i AFL, wrth i'r dysgwyr ddarparu rhesymau priodol a dealltwriaeth o ystyr cyfranogiad. Cyfeiriwch yn ôl at amcanion y wers – ydyn nhw wedi cael eu cyflawni?

Gwahaniaethu:

- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion priodol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectwm Awtistig (ASD) / Iefel isel â PECS/lluniau cyfeiriadol
- Amrywiwch y gweithgareddau fel bod yr holl ddysgwyr yn gallu dewis a chyfranogi ar lefel sy'n addas i'w hanghenion.

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru @complantcymru neu e-bostio post@complantcymru.org.uk